



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Paramedrau ymarfer ôl-gofrestru ar gyfer Cymdeithion Nyrsio Cofrestredig yng Nghymru

Nodi'r terfynau ffiniau proffesiynol a gweithredol ar gyfer ymarfer
Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, wedi'u hategu gan lywodraethu
clinigol (Cymru yn unig)

Chwefror 2025

Cynnwys

<u>1. Cyflwyniad</u>	3
<u>2. Trosolwg o'r ymatebion</u>	5
<u>3. Ymatebion i'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad</u>	6
<u>4. Casgliadau a'r camau nesaf</u>	22
<u>5. Atodiad 1 – Rhestr o ymatebwyr</u>	23

1. Cyflwyniad

Cefndir

Yn ystod 2023, cynhaliwyd prosiect cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r opsiynau a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu rôl Nyrsio band 4 yn y dyfodol ar draws GIG Cymru, gan nodi nad oedd Bydwreigiaeth yn rhan o gwmpas y prosiect. Dyma'r adolygiad mwyaf arwyddocaol o'r gweithlu Nyrsio ers y penderfyniad i gyflwyno'r Nyrs Raddedig yn 2004. Comisiynwyd y prosiect ym mis Ionawr 2023 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd gyda chymorth Prif Swyddog Nyrsio Cymru a Chyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol, Llywodraeth Cymru.

Nod y prosiect oedd ystyried a yw rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig (RNA), sydd ar waith yn Lloegr yn unig ar hyn o bryd, yn ddymunol, yn briodol ac yn ychwanegu gwerth at GIG Cymru. Roedd y fethodoleg yn cyfuno barn rhanddeiliaid Cymru â phrofiad bywyd o'r RNA yn Lloegr, gan asio barn gyda'r llenyddiaeth. Cafwyd 20 o argymhellion yn [adroddiad y prosiect](#), a chafodd pob un ei dderbyn yn llawn gan y Gweinidog Iechyd ym mis Tachwedd 2023. Dyma ddau o'r prif argymhellion:

- Argymhelliad 1:
Dim ond un rôl Nyrsio band 4 fydd yn bodoli yn GIG Cymru, sef Cydymaith Nyrsio Cofrestredig, a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) fydd yn gyfrifol am reoleiddio'r rôl.
- Argymhelliad 2:
Defnyddio dull gweithredu canolog, Unwaith i Gymru, wrth bennu paramedrau ymarfer, sy'n gwahaniaethu'n ddiamwys rhwng rolau Nyrs Gofrestredig a Chydymaith Nyrsio Cofrestredig, gan osgoi disodli'r naill gan y llall. Bydd y paramedrau ymarfer yn destun ymgynghoriad.

Aelod cynorthwyol o'r tîm nyrsio yw'r RNA, sydd wedi ennill Gradd Sylfaen Cydymaith Nyrsio a ddyfernir gan ddarparwr a gymeradwyr gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n cynnwys cwblhau astudiaeth lefel 5 dros ddwy flynedd yn llawn amser (ond gellir ei chwblhau'n rhan-amser), gan alluogi'r RNA i gyflawni gweithgareddau gofal mwy sylweddol a chymhleth na Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW). Yn yr un modd, mae rôl RNA yn wahanol i rôl Nyrs Gofrestredig (RN) gyda'r RN yn ymgymryd â rhaglen radd lawn amser tair blynedd. Mae'r NMC yn gosod y safonau ar gyfer y rhaglenni RNA ac RN israddedig, gyda'r RNA â chwe phlatform a'r RN â saith adeg cofrestru. Y prif wahaniaethau yw bod yr RNA yn gweithio mewn timau tra bod yr RN yn arwain ac yn rheoli gofal nyrsio; mae'r RNA yn monitro gofal tra bo'r RN yn gwerthuso gofal; mae'r RNA yn cyfrannu at ofal integredig tra bo'r RN yn cydlynu gofal; a'r plattform ychwanegol ar gyfer yr RN yw asesu anghenion a chynllunio gofal.

Mae'r rôl wedi'i chyflwyno yn Lloegr i feithrin gallu'r gweithlu nyrsio, gan helpu i ddarparu gofal o'r radd flaenaf sy'n seiliedig ar dystiolaeth, trwy gynorthwyo'r RN, gan eu galluogi nhw i ganolbwyntio ar ofal a gweithgareddau mwy dyrys a chymhleth, gan arddel egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Disgrifir rôl RNA fel rôl 'generig', sy'n cynnwys addysg ar draws y pedwar maes ymarfer: oedolion, plant, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Gellir cyflwyno'r rôl ym mhob lleoliad iechyd a gofal, gyda phobl o bob oed. Mae cyflwyno'r rôl yn Lloegr wedi helpu i ddatblygu gyrfaoedd HCSW ac ehangu'r gweithlu RN drwy fraenaru'r tir i'r RNA ddod yn RN. Mae'r rôl yn gyrchfan gwerthfawr ynddo'i hun, gan gyfrannu'n

sylweddol at ofal cleifion ac yn ychwanegu at y gweithlu nyrsio, ond hefyd yn darparu llwybr clir â chymorth i'r rhai sy'n dyheu am symud ymlaen i rolau nyrsio cofrestredig.

Nod yr ymgynghoriad

Casglu barn a fydd yn cyfrannu at ddatblygu'r paramedrau ymarfer ôl-gofrestru yng Nghymru, gan sicrhau bod yna wahaniaeth clir a diamwys rhwng rolau'r Nyrs Gofrestredig (RN) a'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig (RNA). Nod hyn yw diogelu rhag disodli'r naill rôl gan y llall drwy ddiffinio a chynnal cyfrifoldebau unigryw a chwmpas ymarfer y rôl RN. Bydd diogelu elfennau penodol rôl RN, na ellir eu dirprwyo i RNA, yn cefnogi'r nod hwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle hanfodol i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid i gasglu barn wrth i ni ddatblygu'r paramedrau ymarfer ar gyfer rôl RNA.

Er bod yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o ymatebion, mae'n bwysig nodi y bydd dadansoddiad ansoddol manwl o'r holl ymatebion yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r paramedrau ymarfer ar gyfer cyflwyno rôl RNA yng Nghymru. Er bod yr ymgynghoriad hwn yn rhan bwysig o'r broses, nid dyma'r unig elfen a fydd yn llywio'r sefyllfa derfynol o ran y polisi.

2. Trosolwg o'r ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 184 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid fel a ganlyn:

Aelod o staff y GIG	136
Grŵp arall heb ei restru	17
Sefydliad â buddiant	13
Aelod o'r cyhoedd	9
Ymateb ar y cyd gan fwrdd iechyd/ymddiriedolaeth iechyd	4
Claf/aelod o'r teulu	2
Mae'n well gen i beidio â dweud	2
Cynrychiolydd y sector gwirfoddol	1

Daeth pedwar ymateb ar y cyd gan fyrdau iechyd, ymddiriedolaethau, neu gyrff cysylltiedig, sef:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd);
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB);
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre;
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).

Daeth tri ar ddeg o ymatebion gan sefydliadau sydd â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, gan gynnwys ymatebion ar y cyd gan:

- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC);
- yr Asiantaeth Safonau Proffesiynol (PSA);
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC);
- Gofalwyr Cymru;
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN);
- UNSAIN.

Darparodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar rannau penodol o ddiddordeb yn unig, sy'n golygu bod llai na 184 o ymatebion i nifer o'r cwestiynau.

3. Ymatebion i'r cwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad


Cafodd pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad ei eirio yn y fath fodd fel bod gofyn i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno â datganiad safbwynt ond gallent gynnwys manylion a chyd-destun ychwanegol pe bai angen. Ar gyfer pob cwestiwn, bydd yr ymatebion ie/na yn cael eu cynnwys, ac yna bydd themâu a nodwyd ar draws y sylwadau ychwanegol yn cael eu crynhoi.

Sylwch nad yw cynnwys sylwadau ac arsylwadau ychwanegol yn gofnod cynhwysfawr nac yn arwydd o bwysoli/arwyddocâd penodol. Maent yn adlewyrchiad o ddetholiad o safbwyntiau a fynegwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ac sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel datganiadau thematig eang lle bo hynny'n briodol. Dylid darllen y sylwadau hyn ar y cyd â'r data ymateb ystadegol i gael cyd-destun o ran pa mor gynrychioliadol yw safbwyntiau o ystyried yr holl ymatebion.

Mae'n werth nodi hefyd, o eiriad nifer o ymatebion, ei bod yn ymddangos bod sawl cyfrannwr i'r ymgynghoriad yn ateb y cwestiynau gan gyfeirio at y band 4 *presennol* sef HCSW/Ymarferydd Cynorthwyol yn hytrach na rôl newydd arfaethedig yr RNA.

O ystyried y gwahaniaethau amlwg yn lefel addysg a hyfforddiant y ddwy rôl, mae'n bosibl y byddai atebion yr ymatebwyr hynny wedi bod yn wahanol pe baent wedi'u seilio'n fwy ar yr eglurhad o'r cyd-destun cefndirol yn y ddogfen ymgynghori.

C1: Ydych chi'n credu dylai'r dasg o arwain, cydlynu, rheoli gofal a bod 'wrth y llyw' gael ei chadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn cyfrannu at ofal ond nid ei arwain?




Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr (93%) yn cytuno y dylid cadw'r dasg o arwain, cydlynu a rheoli gofal ar gyfer yr RN. Dyma'r mwyafrif mwyaf ar gyfer unrhyw un o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn. Ymhlith yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn yr atebion, roedd y themâu canlynol yn codi'n gyson:

- Bod hwn yn faes lle mae yna linell derfyn clir rhwng yr RN a'r RNA a fydd yn gweithredu fel llinell goch wrth ddiogelu rhag disodli'r naill rôl gan y llall.
- Y byddai'n ddisgwyliad afresymol i'r RNA ysgwyddo lefel yr atebolrwydd a chyfrifoldeb sy'n dod â bod 'wrth y llyw' mewn lleoliad gofal.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno y dylai'r cyfrifoldeb cyffredinol am fod 'wrth y llyw' aros gydag RN, ond y dylid annog dirprwyo o fewn y rôl honno o dan eu goruchwyliaeth, o ystyried natur ddatblygiadol rôl RNA, a dylai fod yn seiliedig ar sgiliau a phrofiad yr unigolion.

Roedd y 4% o'r ymatebion a oedd yn anghytuno yn cynnwys y sylwadau canlynol:

- Dylai gofal gael ei arwain gan yr unigolyn mwyaf priodol arwain ar gyfer y person hwnnw, ac y gallai fod yn RNA os yw wedi treulio mwy o amser gyda'r claf.
- Gallai'r RNA fod yn gyfrifol am lwyth achosion o gleifion sydd â chyflyrau llai cymhleth cyn belled â bod cwmipas ymarfer wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer y rôl RNA a chynllun clir ar gyfer uwchgyfeirio os bydd cyflwr claf yn gwaethygu.
- Os yw wedi'i gofrestru â'r NMC a'i fod wedi'i hyfforddi'n briodol, a bod cefnogaeth a phroses lywodraethu clinigol briodol ar waith, dylai'r RNA allu arwain, cydlynu a rheoli gofal.

C2 Ydych chi'n credu y dylai asesiad cyfannol o gleifion gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig, gyda'r Cydymaith Nyrsio Cofrestredig yn cymryd rhan mewn elfennau o asesu cleifion yn unig? Ystyr 'cyfannol' yn y cyd-destun hwn yw dull sy'n ystyried agweddau aml-ddimensiwn ar iechyd a lles, gan gydnabod y person cyfan o safbwynt corfforol, meddyliol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol.



Er nad yw'r nifer sy'n cytuno mor uchel â chwestiwn 1, mae mwyafrif clir o 69% yn cytuno y dylid cadw asesiad cyfannol o gleifion yng nghylch gwaith yr RN. Ymhlith yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn yr atebion, roedd y themâu canlynol yn codi'n gyson:

- Cyfrifoldeb cyffredinol a chyflawni'r asesiad cychwynnol, ond gellid dirprwyo rhai elfennau asesu.
- Ymatebodd sawl un gydag ydw ond gyda chafeat i'r perwyl y gallai RNA ei gyflawni o gael yr hyfforddiant priodol ar gynnal asesiad cyfannol.
- Fe wnaeth llawer dynnu sylw at flwyddyn ychwanegol o addysg yr RN fel sail resymegol dros y ffaith eu bod mewn sefyllfa well i arwain asesiadau, a all fod yn gymhleth ar adegau.

Gwnaed yr arsylwadau unigol canlynol gan ymatebwyr unigol:


- *“Ydw - ond mae perygl y bydd y broses o wahanu agweddau ar asesu yn dasgau y mae gwahanol bobl yn eu gwneud yn gorfodi diwylliant ticio bocsys. Mae angen dull aml-ddimensiwn ar lawer o asesiadau beth bynnag. Er enghraifft, asesiadau aml-ffactor ar gyfer codymau i sicrhau'r gweithgarwch mwyaf diogel posibl neu asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu. Os edrychwn ar wahanu unrhyw feysydd asesu, hoffwn weld y Cymdeithion Nyrsio yn chwarae rhan allweddol wrth gymryd cyfrifoldeb am ansawdd cwblhau'r wybodaeth arsylwi corfforol, maes lle nad ydym yn gwneud yn dda nawr. Pwysedd gwaed gorwedd a sefyll, monitro pwysau, asesiadau poen ar gyfer pobl ag anawsterau cyfathrebu, ymddygiad a siartiau bwyd.”*
- *“Mae angen ystyried rôl RNA o fewn gwasanaethau HV ac SN fel rhan o'r ymgynghoriad hwn gan fod angen addasu canlyniadau'r hyfforddiant ac ymarfer clinigol er mwyn sicrhau nad yw'r rôl RNA yn y sector nyrsio hwn yn cael ei hanghofio a'i bod yn cael ei chynnwys yn y gwaith cynllunio gan fod eu rôl yn wahanol i rôl glinigol aciwt ac yn ymwneud fwy â sgilliau ac asesiadau ataliol a chefnogol.”*
- *“Mae'r RCN yn galw ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gadarnhau mai'r safonau hyfedredd y maent wedi'u gosod ar gyfer yr RNA ar draws 6 platfform yw'r paramedrau sefydledig ar gyfer ymarfer NA a'r trothwy uchaf na ellir*

mynd y tu hwnt iddo. Yn absenoldeb yr eglurhad hwnnw a heb ymrwymiad i god cyflogwr cenedlaethol y gellir ei orfodi, mae'r RCN yn credu y dylai Llywodraeth Cymru osod y platfformau rheoleiddio hyn fel y trothwy uchaf. Ar ben hynny, o ystyried bod nyrsys cofrestredig ac o bosibl cymdeithion nyrsio cofrestredig yn gweithio yn y sector annibynnol yn ogystal ag yn y GIG yng Nghymru, mae RCN Cymru yn credu bod yn rhaid i ba bynnag baramedrau ymarfer y penderfynir arnynt gael eu cymhwyso a'u gorfodi yn y sector annibynnol."

Roedd lleiafrif sylweddol o 27% yn anghytuno a nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Bod asesu yn sgîl a ddysgir a gallai fod o fewn galluedd RNA profiadol.
- Gallai'r cleifion â chyflyrau llai cymhleth gael eu hasesu gan yr RNA ac y dylid uwchgyfeirio'r achosion mwy cymhleth i RN.
- Gallai RNA gynnig safbwynt pwysig o ran asesu fel yr aelod staff sydd wedi treulio'r cyfnod hiraf gyda'r claf dan sylw o bosibl.
- Gyda fframweithiau cymhwysedd ac uwchgyfeirio digon cadarn, byddai RNA mewn sefyllfa dda i gynnal asesiadau o gleifion.

C3 Ydych chi'n credu y dylai'r gwaith o gynllunio gofal cleifion mewn modd cyfannol a datblygu cynllun gofal gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig? Ystyr 'cyfannol' yn y cyd-destun hwn yw dull sy'n ystyried agweddau aml-ddimensiwn ar iechyd a lles, gan gydnabod y person cyfan o safbwynt corfforol, meddyliol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol.



Er bod yr atebion i'r cwestiwn hwn yn dangos canrannau tebyg i Gwestiwn 2 o ran y rhaniad ydw/nac ydw, nid oedd un yn dilyn y llall ar gyfer pob ymatebwr. Atebodd 30 o bobl yn wahanol i'r hyn a wnaethant yng nghwestiwn 2 (18 o ydw i nac ydw a 12 o nac ydw i ydw). Mae hyn yn arwydd o'r ffaith, er ei bod yn ymddangos bod y cwestiynau'n ymdrin â materion tebyg, mae yna fân wahaniaethau a welir gan weithwyr iechyd proffesiynol yn y meysydd penodedig hyn.


O'r mwyafrif o 66% a gytunodd â'r datganiad, nodwyd bod y themâu canlynol yn codi'n gyson:

- Roedd cymhlethdod cynyddol rhywfaint o'r gwaith o gynllunio gofal yn gofyn am lefel uwch o addysg/profiad.
- Mae'r gwaith o gynllunio gofal yn golygu cyfrifoldeb/atebolrwydd a fyddai'n afresymol i'w ddisgwyl gan RNA.
- Y dylai cynllun gofal cychwynnol gael ei wneud gan RN, ond y dylai RNA allu ychwanegu at y cynllun gofal ar ôl hynny.
- Fel rhan o natur ddatblygiadol y rôl, gallai fod lle i RNA gynllunio gofal ac adolygu cynlluniau gofal o dan oruchwyliaeth yr RN.

O'r 29% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Roedd llawer o'r farn cyn belled â bod RN yn cymeradwyo'r cynllun yn derfynol, y dylai RNA allu datblygu cynlluniau gofal.
- Yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr a chywir o gleifion, dylai RNA allu datblygu cynllun gofal.
- Byddai'n briodol ar gyfer cleifion nad ydynt yn achosion cymhleth.
- Y person sy'n adnabod y claf orau ddylai ddatblygu cynlluniau gofal
- Dylai'r gwaith o gynllunio gofal eisoes fod yn aml-ddisgyblaethol.
- Dylai fod yn ddibynnol ar allu a chymhwysedd a aseswyd yr unigolyn.

C4 Ydych chi'n credu y dylai gwerthusiad cyfannol o ofal cleifion gael ei gadw gyda'r nyrs gofrestredig, gyda chymdeithion nyrsio cofrestredig yn cymryd rhan mewn elfennau o werthuso cleifion yn unig? Ystyr 'cyfannol' yn y cyddestun hwn yw dull sy'n ystyried agweddau aml-ddimensiwn ar iechyd a lles, gan gydnabod y person cyfan o safbwynt corfforol, meddyliol, emosiynol, seicolegol, cymdeithasol, deallusol ac ysbrydol.



Unwaith eto, roedd atebion i gwestiwn 4 yn dangos rhaniadau tebyg o ran canrannau i gwestiynau 2 a 3, ac unwaith eto roedd amrywiad ymhlith yr ymatebwyr rhwng y cwestiynau hynny. Atebodd 37 o bobl yn wahanol i gwestiwn 4 nag a wnaethant i gwestiwn 3 (20 o ie i na ac 17 o na i ie.)


O'r mwyafrif o 66% a gytunodd â'r datganiad, nodwyd bod y themâu canlynol yn dod i'r amlwg yn gyson:

- Fel rhan o natur ddatblygiadol y rôl, gallai fod cyfle i'r RN ddirprwyo rhywfaint o'r gwaith gwerthuso gofal i'r RNA.
- Cymhlethdod cynyddol rhywfaint o ofal sy'n gofyn am lefel uwch o addysg/profiad.
- Y dylai barhau i fod yn gyfrifoldeb yr RN, ond dylent ofyn am fewnbwn a barn gan y rhai sy'n darparu "gofal ymarferol", a allai fod yn RNA.

O'r 30% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Dylai fod yn ddibynnol ar gymhlethdod y gofal/claf.
- Dylai fod yn dibynnu ar alluoedd a phrofiad unigol yr RNA.
- Dylai gwaith gwerthuso fod yn ddull amlddisgyblaethol, ar y cyd yn cynnwys yr RN a'r RNA.
- Dylai'r RNA allu gwerthuso cyn belled â bod RN yn cymeradwyo'r gwerthusiad yn derfynol.
- Gallai fod yn fwy priodol i RNA os yw wedi bod yn ymwneud yn agosach â gofal y claf hwnnw, ac mae proses gyfannol yn gofyn cysondeb.

C5 Ydych chi'n credu y dylai gwaith llywio, ymateb a chefnogi ymholiadau diogelu i achos o gam-drin a/neu esgeuluso oedolion a phlant gael ei gadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?



Roedd cwestiwn 5 yn dangos mwy o fwllch rhwng barn yr ymatebwyr, gyda mwyafrif clir o 75% yn cytuno y dylid cadw gwaith llywio ymholiadau diogelu, ymateb iddynt a'u cefnogi gyda'r RN.


O'r mwyafrif o 75% a oedd yn cytuno â'r datganiad, roedd consensws eang ar y pwyntiau canlynol:

- Yn naturiol, dylai unrhyw aelod staff roi gwybod yn brydlon am unrhyw *bryderon* diogelu, ond dylai'r gwaith o arwain ymholiadau diogelu fod yn rhan o gylch gwaith yr RN.
- Gall diogelu fod yn gymhleth iawn a chynnwys llawer o asiantaethau allanol a all fod yn anodd hyd yn oed i RN ddibrofiad, felly byddai'n afresymol disgwyl i RNA arwain ar waith o'r fath.

O'r 22% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Dylid ystyried diogelu fel *busnes pawb* ac felly dylai pob aelod staff deimlo eu bod wedi'u grymuso i fod yn rhan o'r prosesau.
- *Beth os mai'r RN sy'n achosi'r pryder diogelu?*
- Gyda'r hyfforddiant a'r cymwyseddau cywir, gallai RNA ymateb i ymholiadau diogelu a'u cefnogi, er gyda RN yn goruchwyllo/arwain y broses yn y pen draw.

C6 Ydych chi'n credu y dylai trafodaethau cymhleth a sensitif gyda chleifion a theuluoedd (neu eraill arwyddocaol) am derfynau triniaeth (y lefel uchaf o driniaeth mae'r claf yn debygol o'i derbyn) gael eu cadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?



Cwestiwn 6 a gafodd un o'r mwyafrifoedd clirïaf yn yr ymgynghoriad hwn.


O'r mwyafrif o 84% a oedd yn cytuno â'r datganiad, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Yn rhy gymhleth, y tu hwnt i'r sgiliau sy'n ofynnol gan yr NMC ar gyfer yr RNA.
- Efallai y bydd teuluoedd yn disgwyl i'r sgysiau hyn gael eu cynnal gan RNA.
- Er y dylai RN arwain y trafodaethau, dylai RNA sydd â chysylltiad agos â'r claf allu darparu cefnogaeth barhaus i gleifion a theulu yn dilyn trafodaethau cychwynnol.
- Mae trafodaethau o'r fath yn aml yn eithriadol o emosiynol gyda chleifion/teuluoedd yn cwestiynu penderfyniadau clinigol, a byddai'n afresymol disgwyl i RNA ymateb heb gefnogaeth RN.

O'r 14% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Gyda hyfforddiant digonol a thrwy gysgodi RN ar y cychwyn, gallai RNA wneud hyn.
- Dylai fod y person gorau ar gyfer yr unigolyn dan sylw/pwy bynnag sydd â'r berthynas therapiwtig agosaf.
- Dylid asesu cymhwysedd ar gyfer y mathau hyn o drafodaethau yn unigol.
- Gallai RNA ddod â safbwynt gwahanol a mewnwelediadau gwerthfawr i drafodaethau o'r fath.
- Gallai RNA gynnal *trafodaethau* am derfynau gofal yn hytrach na gwneud penderfyniadau am derfynau gofal.

C7 Ydych chi'n credu y dylai trafodaeth glinigol am achos rhagweladwy o ataliad y galon a phenderfyniad 'na cheisier dadebru cardio-anadlol' gael ei chadw gyda'r Nyrs Gofrestredig?



Roedd y nifer a oedd yn cytuno ac anghytuno â chwestiwn 7 yr un fath â'r rhaniad yn yr ymatebion i gwestiwn 6, a oedd hefyd yn ymwneud â phriodoldeb trafodaethau RNA â chleifion. Fodd bynnag, roedd yna amrywioledeb unwaith eto rhwng ymatebion unigol ar bob un o'r cwestiynau. Fe wnaeth 28 o ymatebwyr ateb cwestiwn 7 yn wahanol i gwestiwn 6 (16 o dylai i na ddylai, 9 o na ddylai i dylai, 2 o dylai i ddim y naill na'r llall, ac 1 o na ddylai i dim y naill na'r llall).

O'r mwyafrif o 79% a oedd yn cytuno â'r datganiad, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Mae gofyn cael rhywun sydd â'r arbenigedd angenrheidiol i herio unrhyw benderfyniadau amhriodol.
- Mae trafodaethau o'r fath yn aml yn eithriadol o emosiynol, a byddai'n afresymol disgwyl i RNA ymateb heb gefnogaeth RN.


O'r 16% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Dylai unrhyw staff sy'n ymwneud â gofal y claf allu cyfrannu at y trafodaethau hyn.
- Gyda'r hyfforddiant cywir, dylai RNA allu trafod DNACPR.
- Gan y dylid cynnal y sgysiau hyn mewn amgylchedd Tîm Amlddisgyblaethol (MDT), ni fyddai RNA byth yn cael ei adael i gynnal trafodaeth o'r fath heb oruchwyliaeth.
- Byddai cymryd rhan yn y trafodaethau hyn yn ddatblygiad priodol i RNA.

Dyma'r cwestiwn cyntaf lle gwrthododd lleiafrif bach o ymatebwyr gysail y cwestiwn yn gyfan gwbl, gyda 5 yn nodi na ddylai'r RN na'r RNA fod yn arwain trafodaethau DNACPR.

- Dywedodd tri y dylai fod yn dasg MDT ond dan arweiniad y meddyg wrth y llyw.
- Dywedodd un y dylai gael ei arwain yn feddygol.
- Dywedodd un y dylai fod yn amlddisgyblaethol.

C8 Ydych chi'n credu y dylai atebolrwydd proffesiynol am benderfyniad i ryddhau claf gael ei gadw gyda'r nyrs gofrestredig, gyda chymdeithion nyrsio cofrestredig yn cyfrannu at elfennau o'r broses ryddhau yn unig?



Ar wahân i gwestiwn 1, dangosodd y cwestiwn hwn y bwlch mwyaf rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno â'r datganiad y dylai atebolrwydd proffesiynol ar gyfer penderfyniadau i ryddhau claf gael ei gadw gyda'r RN.

O'r mwyafrif o 85% a oedd yn cytuno â'r datganiad, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Yn sicr, dylai'r RN gadw atebolrwydd proffesiynol, ond mae'n bwysig i'r RNA gyfrannu safbwyntiau neu godi pryderon a allai effeithio ar y penderfyniad i ryddhau.
- Dylai penderfyniad sy'n gritigol o ran diogelwch fel rhyddhau claf barhau i fod yn gyfrifoldeb i'r RN.
- Mae'r baich cyfrifoldeb yn gysylltiedig â rhyddhau claf yn gofyn am gymhwyster uwch RN.

O'r 11% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:


- Dylai fod yn ddibynnol ar broffil clinigol y claf sy'n agosáu at gael ei ryddhau.
- Gan y bydd y tîm meddygol ymgynghorol yn penderfynu a yw claf yn y cyflwr clinigol gorau, yna dylai RNA allu ei ryddhau.
- Os yw'r RNA wedi bod yn arwain gofal claf penodol, dylai fod yn gyfrifol am bob agwedd ar ofal, gan gynnwys rhyddhau.
- Dylai RNA gael ei rymuso i arwain y gwaith o ryddhau cleifion mewn rhai amgylchiadau nad ydynt yn gymhleth fel gwasanaethau 'galluogi' neu 'cam i lawr',
- Os bodlonir meini prawf penodol ar gyfer rhyddhau, dylai RNA allu rhyddhau.
- Pan fydd oedi wrth ryddhau claf yn achosi problemau yn y gwasanaeth iechyd, pam na fyddem am i staff ychwanegol fod yn gymwys i ryddhau?
- Dylai rhyddhau yn erbyn cyngor meddygol barhau i gael ei gadw'n gyfan gwbl gyda'r RN.

Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, gwrthododd lleiafrif bach o ymatebwyr gysail y cwestiwn gyda 5 yn nodi na ddylai'r RN na'r RNA fod yn arwain penderfyniadau rhyddhau.

- Dywedodd un y byddai'n cael ei arwain fel arfer gan staff meddygol.

- Dywedodd un y dylai penderfyniadau i ryddhau fod yn rhan o benderfyniad MDT a dylai'r staff dan sylw adlewyrchu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad hwnnw.

C9 Ydych chi'n credu y dylai penderfyniad i atgyfeirio claf at weithiwr proffesiynol neu ddarparwr arall a reoleiddir gael ei gadw gyda'r nyrs gofrestredig, gyda chymdeithion nyrsio cofrestredig yn cefnogi'r broses atgyfeirio yn unig?



O'r holl gwestiynau a ofynnwyd, y cwestiwn hwn oedd â'r rhaniad lleiaf mewn barn o bell ffordd gydag ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal bron o ran a ddylid cadw'r gwaith o gyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol rheoledig eraill gyda'r RN.

O'r mwyafrif o 51% a gytunodd â'r datganiad, yr unig wybodaeth ychwanegol cyson oedd y dylai'r RNA fod yn rhan o leiaf o'r broses atgyfeirio mewn rôl gefnogol i gynorthwyo eu datblygiad, ond y dylai'r penderfyniad i atgyfeirio gael ei wneud gan RN.

O'r 46% o ymatebwyr a oedd yn anghytuno, nodwyd y themâu canlynol yn yr wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ganddynt:

- Gyda hyfforddiant ac asesiadau cymhwysedd priodol, dylai RNA allu gwneud atgyfeiriadau.
- Efallai y bydd yn dibynnu ar natur yr atgyfeiriad sydd ei angen, ond ni ddylid gwahardd yr RNA yn gyfan gwbl rhag cynnal y broses hon.
- Gallai fod yn fwy addas nodi gwaharddiadau atgyfeirio penodol yn hytrach na'u hatal yn gyfan gwbl.
- Dylai cael cefnogaeth i wneud y penderfyniadau clinigol hyn fod yn rhan bwysig o ddatblygiad proffesiynol RNA.

C10 Gofynnwyd naw cwestiwn penodol. Os ydych chi'n credu bod angen ystyried agweddau hollbwysig, sy'n baramedrau pwysig o ran ymarfer, na chyfeiriwyd atynt yma, ysgrifennwch nhw isod.

O'r 184 o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, atebodd 96 y cwestiwn hwn. Mae'r themâu eang canlynol yn rhoi syniad o'r hyn a gafodd ei gynnwys yn yr ymatebion hynny. (Nid yw sylwadau a wnaed o dan y cwestiwn hwn sy'n ailadrodd safbwyntiau a gasglwyd eisoes mewn cwestiynau blaenorol wedi'u cynnwys eto yma i osgoi dyblygu diangen.)

- Y thema fwyaf cyffredin o bell ffordd mewn ymatebion oedd yr angen am eglurder ynghylch **rhoi meddyginiaeth**, a grybwyllwyd gan 22 o ymatebwyr. Yn yr ymatebion hynny, roedd y mwyafrif helaeth o'r farn y dylai'r RNA ymwneud â rowndiau cyffuriau ond y dylid cyfyngu'n glir y rhestr o gyffuriau y caniateir iddynt eu rhoi - sef cyfyngiad penodol ar ddarparu cyffuriau a roddir drwy bigiad. Un farn arall gwbl groes i'r gweddill oedd na ddylid caniatáu i'r RNA roi meddyginiaeth o gwbl.
- Arsylwad cyffredin arall a rannwyd gan 11 o ymatebwyr oedd y dylid rhoi ystyriaeth benodol i sut y bydd RNA yn gweithredu mewn **meysydd arbenigol** penodol. Roedd pryderon eang ynghylch a yw rôl yr RNA yn rhy gyffredinol i fod yn addas ar gyfer meysydd penodol y tu allan i leoliad ysbyty aciwt. Cafwyd cydnabyddiaeth hyd yn oed os nad yw'r addysg ffurfiol ar gyfer y rôl yn benodol i gangen, efallai y bydd angen hyfforddiant penodol i gangen ar RNA cyn gallu gweithio mewn rhai lleoliadau. Sef: pediatreg, gwasanaethau ataliol cymunedol, ymweliadau iechyd, Gwasanaeth Gwaed Cymru, nyrsio iechyd cyhoeddus, nyrsio ysgolion a nyrsio ysgolion arbennig.
- Fe wnaeth 11 o ymatebwyr sylwadau ar yr angen am **gwmpas ymarfer wedi'i ddiffinio'n glir** a chanllawiau ar y tasgau y caiff yr RNA eu cyflawni ac na chaiff eu cyflawni er mwyn osgoi tasgau'n cael eu hychwanegu at y rôl yn araf bach ac er mwyn osgoi disodli'r naill rôl gan y llall.
- I'r gwrthwyneb, nododd un ymatebwr ei fod yn credu ei bod yn bwysig peidio â lleihau rôl RNA i restr o dasgau na all eu cyflawni, gan ychwanegu y dylem feddwl llai am y rôl yn nhermau yr *hyn* maen nhw'n ei wneud a mwy o ran *sut* maen nhw'n ei gwneud.
- Fe wnaeth 6 o ymatebwyr bwysleisio pwysigrwydd **cyfathrebu a negeseuon** mewn perthynas â'r rôl newydd. Roedd hyn yng nghyd-destun cynllun addysgu ar gyfer byrddau iechyd a staff presennol er mwyn sicrhau eglurder ynghylch sut bydd y rôl yn cyd-fynd â'u strwythurau presennol ac i'r cyhoedd er mwyn sicrhau dealltwriaeth o ble fydd RNA yn rhan o'u llwybr gofal.
- Fe wnaeth 5 o ymatebwyr sylwadau ar bwysigrwydd **hyfforddiant** cyson ar gyfer y rôl ar draws pob darparwr addysg - y dylai fod un fframwaith dysgu ymarfer unwaith i Gymru a chyfnod tiwtoriaeth cyson ar gyfer pob RNA.
- Holodd 3 o ymatebwyr sut gallai cyflwyno'r rôl newydd gynyddu'r **baich goruchwyllo** ar nyrsys cofrestredig ac roeddent yn awgrymu asesiad o'r effaith bosibl.
- Soniodd 2 o'r ymatebwyr am yr angen i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer **gwerthuso**, nid yn unig paramedrau ymarfer ond y rôl RNA ei hun i fesur ei heffeithiolrwydd ar ôl i RNA fod yn y swydd am gyfnod digon sylweddol.
- Cafwyd 2 sylw am ddryswch posibl **teitl y rôl**. Roedd un yn canolbwyntio'n gyffredinol ar gynnwys "nyrsio" yn y teitl, a'r llall yn tynnu sylw yn benodol at y ffaith bod rhai nyrsys ers symud i ffwrdd o deitl RGN (nyrs gofrestrdig

gyffredinol), yn defnyddio "Nyrs Gofrestredig – Oedolion" neu "RN-A" i ddisgrifio'u hunain, a allai achosi dryswch.

- Yn yr un modd, gwnaeth 2 o ymatebwyr sylwadau ar yr angen am eglurder ar y **wisg** ar gyfer yr RNA fel ffordd o wahaniaethu'r rôl oddi wrth weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
- Gwnaeth 2 o ymatebwyr sylwadau ar **weithio trawsffiniol** ar gyfer RNA. Amlygodd yr NMC yn benodol, gan *nad* yw Lloegr wedi gwneud hynny, gallai'r ffaith bod Cymru'n datblygu paramedrau ymarfer cyson ar gyfer yr RNA greu gwahaniaethau yn y tasgau y gall yr RNA eu cyflawni y naill ochr i'r ffin a allai gael goblygiadau ar gyfer dealltwriaeth gyffredin o'r rôl a symudiadau gweithwyr.
- Fe wnaeth 2 o ymatebwyr sylwadau ar yr angen am eglurder ynghylch cwrdd **arweinyddiaeth** o fewn rôl RNA, yn benodol ynghylch disgwyliadau i'r RNA oruchwylio/mentora myfyrwyr, rheoli HCSW band 2/3 a chynnal arfarniadau staff.
- Nododd 2 o ymatebwyr y gallai canlyniadau'r **cynllun gwerthuso swyddi'r GIG** sydd ar waith ac adolygiad o broffiliau swyddi cenedlaethol ar gyfer HCSW band 2/3 effeithio ar rôl yr RNA yn y gwasanaeth a dylid eu hystyried.
- Dywedodd 1 ymatebwr y bydd angen i **swydd-ddisgrifiadau** fod yn gyson yn genedlaethol.
- Nododd yr RCN yn ei ymateb y bydd yn bwysig cynllunio ymlaen llaw ar gyfer sut byddwn yn olrhain sawl RNA sy'n mynd ymlaen i wneud â hyfforddiant RN llawn, ac y dylai'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd.
- Roedd ymateb Unsain yn cynnwys y sylw canlynol: "...*dehongli [y paramedrau ymarfer] fel rhywbeth negyddol, byddai cyfyngiadau ar ymarfer a datblygu rôl yn gam yn ôl. Er bod nifer o'r paramedrau yn gysylltiedig â phenderfyniadau proffesiynol unigol (h.y. Rhyddhau, cyfeirio), mae eraill yn ymwneud â meysydd ehangach o ymarfer proffesiynol fel arwain gofal. Bydd yn bwysig nad yw unigolion yn y rôl newydd yn cael eu heithrio o **gyfleoedd dysgu a datblygu** o ganlyniad i'r paramedrau hyn. Bydd llawer o feysydd lle gallant ddysgu'n ddiogel, dan oruchwyliaeth, a datblygu eu harbenigedd drwy gydweithio â Nyrsys Cofrestredig.*"

Cwestiynau gorfodol

Mae'r tri chwestiwn olaf yn ofyniad gorfodol - wedi'u llywio gan Safonau'r Gymraeg - mewn unrhyw ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi.

Oherwydd gwall gweinyddu, *nid* oedd y fersiwn o'r ddogfen ymgynghori a aeth yn fyw i ddechrau ar dudalen yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau hyn.

Erbyn i'r gwall gael ei nodi a'i gywiro (ychwanegwyd y cwestiynau at dudalen yr ymgynghoriad ar 12 Rhagfyr gyda nodyn eglurhaol), roedd 91 o ymatebwyr eisoes wedi cwblhau'r ymgynghoriad.

O'r 91 o ymatebwyr, roedd 54 wedi ateb yn ddienw ac felly nid oedd modd cysylltu â nhw. Cysylltwyd â'r 37 ymatebwr arall trwy e-bost a chynigiwyd cyfle i gyfrannu atebion i'r tri chwestiwn gorfodol hynny a ychwanegwyd wedyn at eu hymatebion gorffenedig at ddibenion y crynodeb hwn.

C11 Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y gallai paramedrau ymarfer cytunedig eu cael ar y Gymraeg, yn benodol:

- **cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg**
- **peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

O'r 131 o ymatebwyr y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt, ni chafwyd ateb gan 75 (57%).

O'r 56 (43%) a atebodd, ni wnaeth y mwyafrif clir o'r ymatebion (33) nodi unrhyw effaith o gwbl.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Dim problemau sy'n unigryw i'r rôl hon, dim ond yr un heriau sy'n wynebu'r GIG yn ehangach, sydd eisoes yn cael sylw mewn polisiau a chanllawiau eraill.
- Gellid ymgorffori'r Gymraeg yn hyfforddiant ac addysg yr RNA.
- Ni fydd y rhan fwyaf o ddarlithwyr, goruchwylwyr ymarfer ac aseswyr ymarfer yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n creu sefyllfa heriol
- Gallai cyflwyno'r rôl newydd, yn ddamcaniaethol, gynyddu'r gronfa o siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaeth.
- *"Gan ei bod yn haws recriwtio siaradwyr Cymraeg os ydynt yn gweithio yn yr ysbyty yn hytrach nag mewn sefydliad addysg uwch, bydd hynny'n helpu i recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg, fodd bynnag, os oes angen teithio am amser hir i sefydliad addysg uwch, hyd yn oed os mai dim ond diwrnod yr wythnos, mae hynny'n tynnu sylw oddi ar y manteision. Byddai defnyddio technegau dysgu o bell, fel Teams yn helpu."*
- *"Byddai gwell cymysgedd o allu a sgiliau a chyfranogiad mewn gofal yn gwella ein gallu i ddarparu siaradwr Cymraeg i deuluoedd"*

C12 Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gellid llunio'r paramedrau ymarfer er mwyn:

- **cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- **peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

O'r 131 o ymatebwyr y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt, ni chafwyd ateb gan 83 (63%).

O'r 48 (37%) a atebodd - fel gyda chwestiwn 11 - nid oedd y mwyafrif o'r ymatebion (22) yn nodi unrhyw effaith o gwbl.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Dylid darparu unrhyw ddogfennau am y paramedrau ymarfer yn ddwyieithog.
- Dylai pob swydd RNA nodi bod gallu'r Gymraeg yn ddymunol er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n ymgeisio.
- Dylid cynnig gwersi Cymraeg i'r RNA.
- *"Dylai'r paramedrau ymarfer ddatgan bod gan y myfyriwr yr hawl i gael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg"*
- *"Dylai'r paramedrau ymarfer ymgorffori Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (2018) gan gynnwys yr angen i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau."*

C13 Hoffem gael eich barn am yr effaith y gallai'r paramedrau ymarfer ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Mae nodweddion gwarchodedig yn golygu: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol.

- **Ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**
- **A ydych chi'n credu y bydd cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

O'r 131 o ymatebwyr y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt, ni chafwyd ateb gan 75 (57%).

O'r 56 (41%) a atebodd, unwaith eto nid oedd y mwyafrif clir (30) yn nodi unrhyw effaith o gwbl.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys:

- Nododd sawl ymatebwr mai effaith gadarnhaol bosibl yw y gallai'r RNA ddarparu llwybr amgen i nyrsio ar gyfer grwpiau penodol o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg brifysgol.

- I'r gwrthwyneb, rhybuddiodd nifer o ymatebwyr yn erbyn canlyniad anfwriadol posibl gweithlu "dwy haen" sy'n atgyfnerthu'r rhagfarnau presennol lle mae pobl â nodweddion gwarchodedig penodol yn parhau i fod mewn rolau cyflog is. Bydd ymgysylltu a thryloywder yn allweddol i atal y risg honno.
- Yn yr un modd, nododd un ymatebwr y gallai rhywun ag anabledd dysgu fel dyslecsia gael ei atal yn anfwriadol rhag gwneud cais am gwrs gradd nyrsio a gwneud cais am y cwrs RNA lefel is yn lle oherwydd diffyg hyder yn hytrach na diffyg gallu.
- Nododd sawl ymatebwr bryder hefyd ynghylch sut bydd cyflwyno'r rôl newydd yn effeithio ar ymarferwyr cynorthwyol band 4 presennol a allai fod yn agosáu at oedran ymddeol ac yn amharod i ailhyfforddi.
- *"Gan ei fod yn gwrs addysg newydd, gellid ei gynllunio i fod yn fwy cynhwysol o'r dechrau."*
- *"os gall pobl ddilyn y rhaglen hon ger eu cartrefi rwy'n siŵr y bydd hyn yn helpu i gael effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig."*

4. Casgliadau a'r Camau Nesaf

Ar draws y mwyafrif o'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad, roedd consensws clir o gytundeb gyda'r datganiadau a osodwyd. Roedd y rhain yn cadarnhau y dylai'r canlynol barhau i gael eu cadw'n ddyletswyddau nyrs gofrestredig:

- Cydlynu, arwain, a rheoli gofal - bod "wrth y llyw".
- Asesu cleifion.
- Cynllunio gofal.
- Gwerthuso gofal.
- Arwain ymholiadau diogelu.
- Trafodaethau cymhleth/sensitif gyda chleifion a theuluoedd.
- Trafodaethau clinigol yn ymwneud â phenderfyniadau na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR).
- Atebolrwydd proffesiynol am benderfyniadau rhyddhau.

Yr un datganiad a welodd wyriad amlwg o'r consensws hwn oedd cwestiwn 9 ynghylch penderfyniadau i atgyfeirio claf at weithiwr proffesiynol neu ddarparwr arall a reoleiddir. Y pwnc hwn oedd â'r mwyafrif lleiaf gyda 51% o'r ymatebwyr yn cytuno a 46% yn anghytuno.

Mae'r cytundeb eang a fynegwyd ar draws y datganiadau ymgynghori yn tanlinellu'r pwysigrwydd a roddir gan gymdeithas a gweithlu'r GIG ei hun ar rôl y nyrs gofrestredig raddedig wrth ddarparu gofal. Roedd yr ymatebwyr yn glir y dylai rôl yr RN gael ei diogelu gan y paramedrau ymarfer hyn ac na ellir gweld hyn fel mater o rôl yr RNA yn disodli rôl yr RN – rhywbeth y mae'r Prif Swyddog Nyrsio wedi bod yn glir yn ei gylch o gychwyn cyntaf y gwaith hwn.

Thema drosfwaol gyson - ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd yn anghytuno â'r datganiadau - oedd er y dylai atebolrwydd ac awdurdod cyffredinol aros gyda nyrsys cofrestredig, roedd yn bwysig bod yr RNA yn ymwneud i raddau cyfyngedig, cefnogol â'r agweddau ar ofal a ddisgrifir, o dan oruchwyliaeth RN.

Mae hyn yn mynegi'r cydbwysedd y mae'n rhaid i'r ddogfen paramedrau ymarfer ei sicrhau rhwng creu llinellau terfyn coch clir rhwng rolau RNA ac RN yn ymarferol, tra'n meithrin natur ddatblygiadol rôl RNA a hyrwyddo dirprwyo priodol.

Mae'r adroddiad cryno hwn yn tynnu sylw at ganlyniadau ystadegol a chynnwys thematig eang yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd dadansoddiad manwl llawn o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio safbwynt polisi'r Prif Swyddog Nyrsio ar y ddogfen paramedrau ymarfer ar gyfer rôl RNA yng Nghymru. Bydd is-grŵp Paramedrau Ymarfer y Bwrdd y Rhaglen RNA genedlaethol yn llywio ac yn cytuno ar ddatblygiad y ddogfen derfynol yn ystod y misoedd nesaf i'w hystyried gan y Prif Swyddog Nyrsio, a bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru erbyn haf 2025.

Er na fydd yn bosibl ymgorffori safbwyntiau pawb, yn enwedig lle mae gwahaniaeth barn ymhlith ymatebwyr neu os nad yw'r pwerau o dan ddeddfwriaeth bresennol yn ein galluogi i ymgorffori'r awgrymiadau, bydd y canllawiau yn adlewyrchu'r safbwyntiau a gynigiwyd gan yr ymgynghoriad lle bo hynny'n bosibl.

Atodiad 1 – Rhestr o ymatebwyr

# defnyddiwr	Ymatebwr	Categori ymatebwyr
1	Anonymous	Regulator (NMC)
2	Anonymous	Member of NHS staff
3	Anonymous	Member of NHS staff
4	Anonymous	Member of NHS staff
5	Anonymous	Member of NHS staff
6	Anonymous	Member of NHS staff
7	Anonymous	Member of NHS staff
8	Anonymous	Member of NHS staff
9	Anonymous	Member of NHS staff
10	Anonymous	Member of NHS staff
11	Anonymous	Member of NHS staff
12	Anonymous	Member of NHS staff
13	Anonymous	Member of NHS staff
14	Anonymous	Member of NHS staff
15	Anonymous	Member of NHS staff
16	Anonymous	Member of NHS staff
17	Anonymous	Member of NHS staff
18	Anonymous	Member of NHS staff
19	Anonymous	Member of NHS staff
20	Anonymous	Member of NHS staff
21	Anonymous	Member of NHS staff
22	Mrs Joanne Jones	Registered Nurse working in a HEI delivering Nursing education
23	Anonymous	Member of NHS staff
24	Anonymous	Member of NHS staff
25	Anonymous	Member of NHS staff
26	Anonymous	Member of NHS staff
27	Anonymous	Member of NHS staff
28	Anonymous	Member of NHS staff
29	Anonymous	Member of NHS staff
30	Anonymous	Member of NHS staff
31	Anonymous	Prefer not to say
32	Sian Price	Member of NHS staff
33	Anonymous	Member of NHS staff
34	Emma Tanner	Member of NHS staff
35	Kelly James	Member of NHS staff
36	Anonymous	Member of NHS staff
37	Anonymous	Member of the public
38	Anonymous	Member of NHS staff
39	Anonymous	Member of NHS staff
40	Anonymous	Member of the public
41	Anonymous	Member of NHS staff

42	Anonymous	Member of the public
43	Vivienne Horle	Member of the public
44	Anonymous	Qualified nurse working in private sector
45	Anonymous	Organisation with an interest in the health service
46	Anonymous	Organisation with an interest in the health service
47	Richard Griffith	Nurse academic
48	Anonymous	Member of NHS staff
49	Nicola Derrick	Member of NHS staff
50	Anonymous	Organisation with an interest in the health service
51	Anonymous	Member of NHS staff
52	Anonymous	Organisation with an interest in the health service
53	Anonymous	Member of NHS staff
54	Anonymous	Member of NHS staff
55	James Oram	Registered Nurse and also a Senior Lecturer in Adult Nursing Swansea University
56	Kate Course	Member of NHS staff
57	Babs Jones	Member of NHS staff
58	Anonymous	Member of NHS staff
59	Anonymous	Member of NHS staff
60	Anonymous	Member of NHS staff
61	Anonymous	Member of NHS staff
62	Anonymous	Voluntary sector representative (community group, volunteer group, self-help group, cooperative, enterprise, religious group, not-for-profit organisation)
63	Robert Richards	Member of NHS staff
64	Anonymous	Member of NHS staff
65	Anonymous	Member of NHS staff
66	Anonymous	Member of NHS staff
67	Anonymous	Member of NHS staff
68	Anonymous	Member of NHS staff
69	Anonymous	Member of NHS staff
70	Anonymous	Member of the public

71	Victoria Goodwin	Member of NHS staff
72	Anonymous	Organisation with an interest in the health service
73	Anonymous	Member of NHS staff
74	Anonymous	Member of NHS staff
75	Anonymous	Member of NHS staff
76	Anonymous	Member of NHS staff
77	Paul Labourne	A Registered nurse not working in the NHS
78	Anonymous	Member of NHS staff
79	Sianed Spiers	Member of NHS staff
80	Anonymous	Member of NHS staff
81	Anonymous	Member of NHS staff
82	Anonymous	Member of NHS staff
83	Anonymous	Member of NHS staff
84	Anonymous	Member of NHS staff
85	Anonymous	Member of NHS staff
86	Anonymous	Member of NHS staff
87	Anonymous	Member of NHS staff
88	Anonymous	Member of NHS staff
89	Anonymous	Member of NHS staff
90	Anonymous	University nurse academic
91	Azelle Gerry	Member of NHS staff
92	Anonymous	Member of NHS staff
93	Alison Wardrop	Member of NHS staff
94	Anonymous	Member of NHS staff
95	Anonymous	Member of NHS staff
96	Anonymous	Member of NHS staff
97	Anonymous	Member of NHS staff
98	Anonymous	Member of NHS staff
99	Gary Porter-Jones	I'm a registered nurse
100	Anonymous	Member of NHS staff
101	Anonymous	Member of NHS staff
102	Anonymous	Organisation with an interest in the health service
103	Anonymous	Member of NHS staff
104	Steve Jones	Member of NHS staff
105	Alison Leary	Organisation with an interest in the health service
106	Anonymous	Member of NHS staff
107	Anonymous	Member of NHS staff
108	Anonymous	Member of NHS staff

109	Anonymous	Member of NHS staff
110	Anonymous	Member of NHS staff
111	Terry Kirton	Member of the public
112	Anonymous	Member of NHS staff
113	Anonymous	Member of NHS staff
114	Anonymous	Head of Nurse Education and Senior Nurse Education joint response
115	Anonymous	Member of NHS staff
116	Buddug Jones	Member of NHS staff
117	Anonymous	Member of NHS staff
118	Anonymous	Member of NHS staff
119	Anonymous	Member of NHS staff
120	Anonymous	HEI
121	Anonymous	Member of NHS staff
122	Anonymous	Member of NHS staff
123	Anonymous	Member of NHS staff
124	Anonymous	Member of NHS staff
125	Anonymous	Member of NHS staff
126	Anonymous	Member of NHS staff
127	Anonymous	Member of NHS staff
128	Anonymous	Member of NHS staff
129	Anonymous	Member of NHS staff
130	Anonymous	Member of NHS staff
131	Anonymous	Patient / family member or carer of a patient
132	Anonymous	Member of NHS staff
133	Anonymous	Member of NHS staff
134	Anonymous	Member of NHS staff
135	Anonymous	Member of NHS staff
136	Anonymous	Member of NHS staff
137	Anonymous	Member of NHS staff
138	Anonymous	Member of NHS staff
139	Anonymous	Member of NHS staff
140	Anonymous	Member of NHS staff
141	Anonymous	Member of NHS staff
142	Anonymous	Member of NHS staff
143	Anonymous	Member of NHS staff
144	Anonymous	Member of NHS staff
145	Mandy Jones	Member of NHS staff
146	Anonymous	Prefer not to say
147	Anonymous	Member of NHS staff
148	Mrs Rhian Evans	Patient / family member or carer of a patient
149	Anonymous	Member of NHS staff
150	Anonymous	Member of NHS staff

151	Anonymous	Member of NHS staff
152	Anonymous	I work for the NHS, but am also a Representative of RCN Nursing Support Workers in Wales
153	Anonymous	Member of the public
154	Anonymous	Member of NHS staff
155	Anonymous	Member of NHS staff
156	Nicola Derrick (collated a collection of responses)	Swansea Bay University Health Board Mental Health and Learning Disabilities Professional Nurse Group
157	Anonymous	Member of NHS staff
158	Anonymous	Member of NHS staff
159	Anonymous	Member of NHS staff
160	Anonymous	Member of the public
161	Anonymous	Education professional in HSC
162	Anonymous	Member of NHS staff
163	Anonymous	Member of NHS staff
164	Anonymous	Member of NHS staff
165	Anonymous	National Strategic Clinical Network for Cancer, NHS Executive
166	Anonymous	Member of NHS staff
167	Anonymous	Member of NHS staff
168	Anonymous	Member of NHS staff
169	Anonymous	Registered Nurse
170	Anonymous	Higher education
171	Anonymous	Member of the public
172	Ruth Cann	Member of NHS staff
173	Anonymous	Retired Registered Nurse
174	Anonymous	Member of NHS staff
175	Hywel Dda UHB	Health Board/Trust
176	NMC	Organisation with an interest in the health service
177	PSA	Organisation with an interest in the health service
178	WLGA	Organisation with an interest in the health service
179	Aneurin Bevan UHB	Health Board/Trust

180	Carers Wales	Organisation with an interest in the health service
181	RCN	Organisation with an interest in the health service
182	UNISON	Organisation with an interest in the health service
183	Velindre NHS Trust	Health Board/Trust
184	HEIW	Health Board/Trust